27AIN O FEHEFIN

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Ffair Haf

Mae'r haul yn tywynnu heddiw ac rydym yn edrych ymlaen at fwynhau gyda'n gilydd yn Ffair Haf Ysgol Treganna. Bydd y ffair yn cychwyn yn syth ar ôl ysgol ac yn gorffen am 5.30yh. Bydd mynediad am ddim ac yn y ffair bydd gemau, llithren aer, gemau chwaraeon, stondinau, raffl fawr, bar, bwyd a diod. Mae pob dosbarth yn gyfrifol am stondin ac mae'r disgyblion wedi bod wrth eu bodd yn cyllunio ac yn paratoi ar gyfer y ffair. Rydym yn ddiolchgar i'r pwyllgor sydd wedi bod wrthi yn trefnu'r ffair a'r holl wirfoddolwyr a staff fydd yn helpu heno. Dewch i fwynhau ac i gefnogi!

### Gwisgo Coch

Heddiw rydym wedi bod yn gwisgo coch i ddathlu bod merched Cymru yn cystadlu yn yr Ewros! Rydym hefyd wedi bod yn ffilmio rhywbeth cyffrous iawn ac yn edrych ymlaen yn fawr at rannu'r cyfan gyda chi wythnos nesaf! Diolch i Laura Mcallister am ei chefnogaeth.

### Maes y Fron

Wythnos yma mae disgyblion blwyddyn 3 wedi ymweld â Maes y Fron. Cafodd y disgyblion dau ddiwrnod wrth eu bodd yn gwneud amryw o weithgareddau awyr agored. Diolch i'r staff am drefnu ac am ofalu ar ôl y disgyblion yn ystod y daith.

### Ffair Swyddi

Roedd yn hyfryd heddiw i groesawu cwmnïau, unigolion a busnesau lleol i'r ysgol ar gyfer ein Ffair Swyddi. Fel rhan o waith y tymor trefnodd disgyblion blwyddyn 6 Ffair Swyddi yn yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r swyddi a busnesau gwahanol sydd yn yr ardal leol. Yn ogystal, roedd cyfle i ysbrydoli pawb o'r math o yrfaoedd sydd ar gael, a'r swyddi fydd ar gael yn y dyfodol. Diolch i'r staff ac i'r disgyblion am drefnu'r Ffair Swyddi a diolch i'r holl gwmnïau, unigolion a busnesau a ddaeth i gyfrannu tuag at y ffair.

## Calendr

Ffair Haf
27/6/25

Diwrnod Pontio mewnol
1/7/25

Pontio Plasmawr Blwyddyn 6
1/7/25



## Pride

Dydd Sadwrn, fe wnaethom ddod ynghyd yn ddisgyblion, rhieni a staff i orymdeithio trwy strydoedd Caerdydd i ddathlu gŵyl Pride. Roedd y disgyblion wedi bod wrthi yn ystod yr wythnos yn paratoi baneri ac roedd yn hyfryd i weld cynrychiolaeth arbennig o Ysgol Treganna. Diolch i bawb wnaeth ymuno gyda ni i ddathlu dydd Sadwrn diwethaf.










## Staff mis Medi

Dydd Mawrth, y 1af o Orffennaf byddwn yn cynnal ein diwrnod pontio mewnol. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i fynd i'w dosbarth newydd ac i gyfarfod a'u hathrawon newydd. I'ch atgoffa, dyma ddosbarthiadau a staff mis Medi.

| Arweinydd Branwen<br>Emsyl Llwyd | Arweinydd Manawydan<br>Elin James | Arweinydd Pwyll<br>Erwain Alaw |
|---|---|---|
| Meithrin (Math) | | Elin James |
| Olwen – Miss Elin Evans | Bedwyr – Mrs Catrin V Smith | Mabon – Mrs Sian Healen |
| Elen – Mrs Emsyl Llwyd | Culhwch – Miss Elan Morris | Gwydion – Ms Beca Pennar |
| Blodeuwedd – Miss Catrin Rees | Llyr – Miss Sian Morgans | Arianrhod – Mrs Afryl Davies (cyfnod mamolaeth Mrs M Miles Farrier) Bydd Mrs M Miles Farrier yn dychwelyd 2/26 |
| Ceridwen – Mrs Eleri Jones | Lleu – Miss Megan Lewis | Matholwch – Mrs Liz Esau |
| Gwenhwyfar – Mrs Elin - Roberts Evans | Bendigeidfran – Ms Sara Jones | Seithennyn – Miss Nanw Jones |
| Peredur – Mrs Mari Williams | Gwern – Mrs Bethan Mair Roberts | Rhiannon – Mrs Jess Ausi |
| Morfydd – Mr Geraint Passmore | Taliesin – Miss Catrin Jones | Gronw – Mrs Erwain Alaw |

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Ble mae dy…?
(Het/bag/potel)

**Her**
Dydw i ddim gwybod ble mae fy…

**Testun trafod yr wythnos**
A ddylai plant gael pwdin cyn pryd bwyd?

**Cân yr wythnos**
Bronwen - Ti a Fi

**Idiom yr wythnos**
Bod yn gefn i rywun